# Gweithdrefn agor amlenni pleidlais bost

Y Comisiwn Etholiadol

## Cam 1.

Agorwch Flwch Pleidleisio'r Pleidleiswyr Post

↓

Cyfrifwch a chofnodwch nifer y prif amlenni (amlenni '$B_1$')

↓

Agorwch y prif amlenni (amlenni 'B') a thynnwch allan y datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlen y papur pleidleisio (amlen 'A')

↓

Marciwch bob ddatganiad pleidlais bost a ddychwelwyd ar y rhestr o bleidleisiau post/pleidleisiau post drwy ddirprwy i ddangos ei fod wedi'i ddychwelyd[2]

→

Pob rhan o'r bleidlais bost heb ei dychwelyd?

Marciwch yr amlen 'gwrthodwyd dros dro', atodwch y cynnwys ac ychwanegwch at y pecyn pleidleisiau a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestrau fel y bo'n briodol:

- y rhestr o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys (neu o gwbl)
- y rhestr o rifau papurau pleidleisio y datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd heb bapur pleidleisio

Gweler Cam 4.

# Cam 2.

Gwiriwch y dynodwyr personol ar y datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd

Gwahanwch yr amlenni papurau pleidleisio oddi wrth y datganiadau pleidleisio drwy'r post a chadwch y ddau mewn trefn

Caiff datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys eu gwrthod. Mae'r datganiadau, y papur pleidleisio a'r amlenni wedi'u marcio â 'gwrthodwyd' a'u gosod yn y cynhwysydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.

Dim ond eu dyddiad geni sydd angen i bleidleiswyr post sydd wedi cael hepgoriad ei gwblhau.

Pennwch y datganiadau pleidleisio drwy'r post hynny sydd heb ddyddiad geni a/neu lofnod neu lle nad yw'r naill neu'r llall/y ddau yn cyfateb i'r rhai a gedwir ar gofnod y dynodydd. Dyfarnwch y rheini a gwrthodwch lle nad yw'r naill neu'r llall wedi'u cynnwys neu os nad ydych yn fodlon bod y datganiad wedi'i gwblhau'n briodol.

Gwiriwch fod y rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen A). Ar ôl paru, paciwch y datganiadau pleidleisio drwy'r post a seliwch y pecyn.

Dim paru?

Agorwch yr amlen. Os yw'r papur pleidleisio yn cyfateb i'r datganiad, mae'n ddilys a dylai fynd yn y blwch pleidleisio drwy'r post. Dylai rhai nad ydynt yn paru gael eu gwrthod dros dro (gweler isod).

1. Mae Amlenni B yn cynnwys pan fod yr eitemau perthnasol yn cael eu dychwelyd heblaw yn amlen swyddogol B
2. P'un a yw wedi'i gwblhau ai peidio.
3. Os oes gwrthwynebiad i wrthodiad gan ymgeisydd, asiantiaid etholiadol neu asiant pleidleisio drwy'r post, rhaid marcio'r datganiad pleidleisio drwy'r post fel 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'. Ni all arsylwyr achredig a chynrychiolwyr y Comisiwn wneud gwrthwynebiadau.

# Cam 3.

**Agorwch amlenni'r papurau pleidleisio drwy'r post (amlenni 'A')**

Agorwch amlenni'r papurau pleidleisio (amlenni A) a thynnwch y papurau pleidleisio allan, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw wyneb i lawr bob amser

**Dim papur pleidleisio y tu mewn i'r amlen?**

Marciwch 'gwrthodwyd dros dro' a rhowch yn y cynhwysydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestr o rifau papurau pleidleisio y datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd heb bapur pleidleisio.

Gwiriwch y rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen 'A') yn erbyn y rhif ar gefn y papur pleidleisio

**Dim paru?**

Dylid cysylltu'r papur pleidleisio â'r amlen, ei farcio fel 'wedi'i wrthod dros dro' a'i roi yn y cynhwysydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestr o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys a'r rhestr o rifau papurau pleidleisio o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd heb bapur pleidleisio.

Cadwch y papurau pleidleisio wyneb i lawr bob amser. Peidiwch ag edrych na chaniatáu i eraill edrych ar y pleidleisiau a nodir ar y papurau pleidleisio. Rhowch y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio drwy'r post neu'r cynhwysydd priodol ac ewch ymlaen i Gam 5.

# Cam 4.

**Paru dogfennau ar wahân**

Gwiriwch y ddwy restr wrthod yn erbyn yr holl bapurau pleidleisio/datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd ar wahân i'w datganiad pleidleisio drwy'r post/papur pleidleisio cyfatebol ac, os yw'n bosibl, parwch nhw. Cofnodwch unrhyw baru llwyddiannus ar y rhestrau.

Rhaid mynd â'r ddwy restr i agoriad terfynol y pleidleisiau post i gynnal unrhyw baru terfynol.

Rhowch y papurau pleidleisio nad ydynt bellach i'w trin fel rhai a wrthodwyd dros dro yn y blwch pleidleisio drwy'r post neu'r cynhwysydd priodol a rhowch y datganiadau pleidleisio drwy'r post cysylltiedig yn y cynhwysydd priodol.

# Cam 5.

**Selio'r blwch pleidleisio drwy'r post**

Cyfrifwch a chofnodwch gyfanswm y papurau pleidleisio, gan gadw'r papurau pleidleisio wyneb i lawr bob amser

Nid yw'r pleidleisiau gwirioneddol yn cael eu cyfrif ar hyn o bryd

Rhowch y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio drwy'r post, y dylid ei selio ar ddiwedd pob sesiwn agor amlenni a'i storio'n ddiogel

Cwblhewch gyfrif papur pleidleisio drwy'r post